

DOLEN Y TAB – 18

21–22 Awst 2020

Yn ôl ein harfer, byddwn yn cyd-addoli gyda Bethlehem, Gwaelod y Garth, drwy gydol mis Awst.

****BORE SUL 23 AWST****

Yr oedfa yng ngofal Edwyn Evans ac aelodau'r Tabernacl.

Oedfa Olaf Awst

30 Awst

Dan ofal Rhodri-Gwynn Jones, Bethlehem, Gwaelod y Garth.

Os na chlywch yn wahanol, bydd pob un o'r oedfaon hyn ar gael ar ein llwyfannau arferol.

Cofiwch hefyd bob dydd Sul am . . .

- **12.00**
Oedfa Radio Cymru
 - **12.30**
Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
 - **E-fwletin Cristnogaeth21** ar eu gwefan www.cristnogaeth21.cymru
-

LLYFRYN DATHLU'R 150

Diolch i'r Gofalwyr Ardal ac eraill sydd wedi bod wrthi'n brysur dros y 10 niwrnod diwethaf yn dosbarthu'r llyfryn o dŷ i dŷ dros ardal eang sy'n ymestyn rhwng Penylan, Caerdydd a Thonyrefail. Gobeithio y bydd pob un ohonoch wedi derbyn eich copi cyn diwedd Awst. Rydym yn gwbl hyderus y cewch flas mawr wrth bori drwy'r tudalennau a chael eich atgoffa o'r hyn mae'r Tabernacl wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd a'r heriau sydd o'n blaen i'r dyfodol.

Eisoes mae sawl un wedi holi a oes modd cael copïau ychwanegol i'w hanfon at eu plant neu rieni. Y newyddion da yw i ni ofalu bod gennym stoc digonol wrth gefn i gwrdd â'r galw hwn a hefyd i'w defnyddio i hyrwyddo'r achos drwy ei gyflwyno i ymwelwyr ac aelodau newydd.

CODI DROS £7,000 MEWN CWTA CHWE MIS

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau hael dros y misoedd diwethaf at gasgliadau Cronfa Llifogydd Rhondda Cynon Taf, Banc Bwyd Taf Elái ac Wythnos Cymorth Cristnogol, ynghyd â'r Gronfa Elusennau flynyddol (yr amlenni brown). Mae cyfanswm o **£7,375** yn swm anrhydeddus iawn, ac mae'n braf gwybod ein bod yn dal i fedru helpu ynghanol y cyfyngiadau.

Oherwydd yr angen a'r anawsterau sy'n wynebu cymaint o bobl, bydd casgliad y Banc Bwyd yn parhau, yn ogystal â'r casgliad amlenni brown. Cyhoeddir manylion ynghylch sut y gellir cyfrannu at elusennau'r amlenni brown yn *Dolen y Tab* ym mis Medi.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus.

Y GWEITHGOR
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

YR AMLENNI GWYN

Aeth 22 Sul heibio bellach ers i ni gwrdd mewn oedfa yn y capel, ond medrwyd barhau i gyfrannu at gronfa'r eglwys (amlenni gwyn) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Neu fel arall gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.
Cod didoli: 30 – 96 – 72
Rhif y cyfrif: 03607499

Diolch am bob cefnogaeth.

'NES NA'R HANESYDD . . . '

Diddorol iawn oedd darllen sylwadau a draddodwyd gan Val McDermid, awdur toreithiog cyfresi o nofelau troseddol, mewn darlith yng Ngŵyl Lenyddol Ryngwladol Caeredin yr wythnos ddiwethaf. Yn ei chyflwyniad, gwnaeth gymhariaeth rhwng arweinwyr gwleidyddol oedd wedi ymdopi'n llwyddiannus drwy argyfwng y pandemig a'r arweinwyr hynny oedd wedi bod ar chwâl. Cyfeiriodd at arweinwyr megis Nicola Sturgeon yn yr Alban, Jacinda Ardin yn Seland Newydd a Katrín Jakobsdóttir yng Ngwlad yr Iâ. Sylw McDermid oedd bod un peth yn gyffredin rhyngddynt, sef bod pob ohonynt yn ddarllenwyr ffuglen brwd, tra bod arweinydd y llywodraeth yn San Steffan yn treulio'i oriau hamdden (prin!) yn darllen cofiannau diddiwedd am y 'cewri' fu'n byw yn 10 Downing Street o'i flaen ef.

Craidd neges Val yw bod ffuglen yn cynnig dau beth i'r darlennydd, sef yn gyntaf y rhodd o ddychymyg ac yn ail y rhodd o empathi. Wrth ddarllen nofelau neu straeon byddwn yn profi bywyd y tu allan i'r swigen rydym yn byw ynddi, ac yn magu empathi gyda rhai sy'n llai breintiedig na ni. Aiff ymlaen i ddadlau nad darllen am fywyd Winston Churchill a'i debyg yw'r paratoad delfrydol i ddeall bywydau pobl gyffredin y wladwriaeth rydych i fod yn ei llywodraethu. Byddai'n ddiddorol, felly, cael gwybod pa lyfrau mae Mark Drakeford yn troi atynt yn ei sied yng ngwaelod yr ardd cyn diffodd y gannwyll bob nos. Tybiaf fod ganddo lyfrgell helaeth o nofelau wrth erchwyn ei wely, neu fel arall mae theori'r nofelydd yn cwmpo'n deilchion.

Wrth gwrs, nid yw canfyddiad McDermid yn ddieithr, yn arbennig felly i ddarllenwyr y Beibl. Wedi'r cyfan, mae'r straeon niferus rhwng ei gloriau ymhlith rhannau mwyaf gafaelgar a chofiadwy'r gyfrol – yr Hen Destament a'r Testament Newydd fel ei gilydd. Trwy ddarllen rhai o'r hanesion byddwn yn datblygu'r ddawn i uniaethu â sawl un o gymeriadau'r Beibl.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ddehongli pwysigrwydd y damhegion sydd

mor bwysig gan yr Iesu i gyflwyno'i ddysgeidiaeth i'w ddisgyblion a'i ddilynwyr. Ni ellir chwaith orbwysleisio dylanwad pellgyrhaeddol nifer o'r damhegion, megis dameg y Samariaid Trugarog, ar fydolwg canran sylweddol o boblogaeth gwledydd Prydain sydd wedi clywed y stori yn yr ysgol.

Ond, yn dilyn digwyddiadau'r dyddiau diwethaf, mae lle i ofni nad oes gan lawer o'r gwleidyddion unrhyw amgyffred o amgylchiadau'r ffoaduriaid sy'n cael eu herlid o'u cynefin. Sut arall mae deall agwedd sarhaus rhai fel Priti Patel, yr Ysgrifennydd Cartref, a Sarah Atherton, AS Wrecsam? Mae'r ddwy wedi bod am y gorau'n pwyso am ddefnyddio'r lluoedd arfog i rwystro'r trueiniaid hyn sy'n mentro croesi'r sianel brysur a pheryglus rhwng Ffrainc a Loegr mewn cychod bregus. Yna, ddoe ddiwethaf clywsom am drychineb erchyll Abdulfatah Hamdallah, llanc o Sudan y daethpwyd o hyd i'w gorff ar draeth yn Calais wedi boddi yn ei ymdrech arwrol ond aflwyddiannus i groesi'r sianel.

Mae'n siŵr y byddai Val McDermid am annog y ddwy AS i ddarllen nofelau i fagu mwy o empathi, ond onid gwell fyddai eu cynghori i droi at rai o ddamhegion yr Iesu yn Efengyl Luc ac yna gweithredu ar y neges o gariad ynddynt sydd yr un mor berthnasol heddiw ac oeddynt 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk / 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i:*

gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.